# Yr Adran 50/50

## Cyflwyniad

Mae dwy adran i’r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL). Mae yna’r adran arferol, a elwir yn **Brif Adran** ac mae yna’r **Adran 50/50**. Y **Brif Adran** yw lle rydych chi'n talu cyfraniadau arferol ac yn derbyn y pensiwn arferol sydd yn cael ei gronni. Gyda'r **Adran 50/50** rydych chi'n talu **hanner** eich cyfraniadau arferol i gronni **hanner** eich pensiwn arferol.

## Faint fydd y gost i chi ymuno â'r Adran 50/50?

Mae'r tabl canlynol yn dangos y bandiau cyfraniadau sy'n berthnasol yn y **Brif Adran** a'r **Adran 50/50** rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

| Eich Gwir-dâl Pensiynadwy | Cyfradd Cyfraniad ar gyfer y Brif Adran | Cyfradd Cyfraniad ar gyfer yr Adran 50/50 |
|---|---|---|
| Hyd at £16,500 | 5.50% | 2.75% |
| £16,501 i £25,900 | 5.80% | 2.90% |
| £25,901 i £42,100 | 6.50% | 3.25% |
| £42,101 i £53,300 | 6.80% | 3.40% |
| £53,301 i £74,700 | 8.50% | 4.25% |
| £74,701 i £105,900 | 9.90% | 4.95% |
| £105,901 i £124,800 | 10.50% | 5.25% |
| £124,801 i £187,200 | 11.40% | 5.70% |
| Yn fwy na £187,201 | 12.50% | 6.25% |

## A fydd yr Adran 50/50 yn effeithio ar eich sicrwydd bywyd, eich yswiriant salwch a'ch buddion goroeswr?

P'un a ydych yn cyfrannu o dan y **Brif Adran** neu'r **Adran 50/50**, byddwch yn cael sicrwydd yswiriant bywyd llawn, yswiriant salwch llawn a buddion goroeswr llawn pe byddech chi'n marw.

## Sut bydd eich pensiwn yn cronni yn y Brif Adran ac yn yr Adran 50/50?

Mae'r enghraifft isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng y cyfraniadau rydych yn eu talu, a'r pensiwn rydych yn ei gronni rhwng y **Brif Adran** a'r **Adran 50/50**, yn **defnyddio** tâl pensiynadwy blynyddol o £18,000.

| | **Prif Adran** | **Adran 50/50** |
|---|---|---|
| **Cyfraniad (Gros):** | £1,004 (5.80%) | £522 (2.90%) |
| **Pensiwn sydd yn cael ei gronni:** | £367.35 (1/49th) | £183.67 (1/98th) |
| **Yswiriant Bywyd:** | £54,000<br>(3 x £18,000) | £54,000<br>(3 x £18,000) |

## Sut ydych yn ymuno â'r Adran 50/50?

Os hoffech chi ymuno ag Adran 50/50 y cynllun pensiwn, cysylltwch â'ch Cyflogwr / Cronfa Bensiwn i ofyn am y **Ffurflen Ethol Adran 50/50**. Os oes gennych fwy nag un swydd, bydd angen i chi lenwi Ffurflen Ethol ar gyfer pob swydd.

## Pa mor hir allwch chi gyfrannu at yr Adran 50/50?

Mae'r **Adran 50/50** wedi ei chynllunio i fod yn opsiwn tymor byr i'ch helpu chi yn ystod cyfnodau o galedi ariannol. Does dim terfyn amser i ba mor hir allwch chi aros yn **Adran 50/50** y cynllun. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses cofrestru awtomatig, byddwch yn cael eich rhoi yn ôl yn y cynllun Prif Adran bob tair blynedd ar y gyfradd gyfrannu lawn. Os ydych eisiau aros yn yr Adran 50/50, bydd angen i chi lenwi ffurflen **Ethol Adran 50/50** newydd.

## Allwch chi symud yn ôl i’r Brif Adran?

Gallwch, mae gennych yr opsiwn i symud yn ôl i’r **Brif Adran** ar unrhyw adeg. Bydd angen i chi lenwi ffurflen Ethol i ailymuno â **Phrif Adran** y Cynllun. Yna byddwch yn dechrau cronni buddion llawn yn y **Brif Adran** o’r cyfnod tâl nesaf.

## Beth sy’n digwydd os nad ydych ar unrhyw dâl oherwydd salwch neu anaf?

Os nad ydych yn derbyn tâl oherwydd salwch neu anaf byddwch yn cael ei symud yn ôl i **Brif Adran y cynllun pensiwn**. Byddwch yn cronni buddion pensiwn ar y gyfradd lawn.

## Allwch chi dalu cyfraniadau ychwanegol?

Os ydych yn Adran 50/50 y cynllun pensiwn ac yn talu neu’n ystyried talu cyfraniadau ychwanegol, cysylltwch â’r gronfa pensiwn i drafod sut bydd hyn yn effeithio ar yr Adran 50/50.

## All fy Nghyflogwr ofyn / gorfodi i mi ymuno â’r Adran 50/50?

**Ni all** eich cyflogwr ofyn na gorfodi i chi ymuno ag Adran 50/50 y cynllun. Os ydych yn teimlo bod eich Cyflogwr yn eich annog i ymuno â’r Adran 50/50 o’r cynllun pensiwn, yna hysbyswch **Y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR)**. Gallwch wneud hyn trwy eu gwefan: [www.thepensionsregulator.gov.uk/cy](http://www.thepensionsregulator.gov.uk/cy)

## A all y Gronfa Bensiwn roi Cyngor Ariannol i mi?

Nodwch os gwelwch yn dda na all y Gronfa Bensiwn roi unrhyw gyngor ariannol i chi. Ar ôl i chi ystyried y wybodaeth yma, efallai y bydd angen i chi ofyn am Gyngor Ariannol Annibynnol cyn gwneud eich penderfyniad.

## Ble allwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn Gwynedd:

Ffôn: 01286 679982
E-bost: pensiynau@gwynedd.llyw.cymru

## Ymwadiad

Nid yw'r Gronfa Bensiwn yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: [https://unbiased.co.uk/](https://unbiased.co.uk/)
Helpwr Arian: Choosing a financial adviser (moneyhelper.org.uk)